OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2727 (Cy. 262) (C. 109)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2013

*Gwnaed* - - - - *22 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 8(1) a 9(3) o Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "adeilad ynni a eithrir" yr ystyr a roddir i "excepted energy building" yn yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**2**); ac

ystyr "y Mesur" ("the Measure") yw Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.

### Diwrnod Penodedig

**2.**—(1) Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar y diwrnod penodedig yn ddarostyngedig i baragraff (3)—

(a) adrannau 1(1) i (3);

(b) adran 1(4) at bob diben arall; ac

(c) adran 1(5).

(2) Y diwrnod penodedig yw—

(a) 30 Ebrill 2014 mewn perthynas ag:

(i) cartrefi gofal;

(ii) cartrefi plant;

(iii) neuaddau preswyl;

(iv) ystafelloedd at ddibenion preswyl; a

(**1**) 2011 mccc 3

(**2**) O.S. 2009/3019.

(b) 1 Ionawr 2016 mewn perthynas ag:

(i) tai annedd;

(ii) fflatiau.

(3) Nid yw paragraff (1) yn cychwyn darpariaethau'r Mesur mewn perthynas ag adeiladau sydd—

(a) yn rhestredig yn unol ag adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**);

(b) mewn ardal gadwraeth a ddynodwyd yn unol ag adran 69 o'r Ddeddf honno;

(c) wedi eu cynnwys yn y gofrestr o henebion a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979(**4**);

(d) adeiladau ynni a eithrir; nac

(e) adeiladau dros dro, hynny yw adeiladau sydd ag amser defnyddio a gynlluniwyd o ddwy flynedd neu lai.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

22 Hydref 2013

(**3**) 1990 (p.9).

(**4**) 1979 (p.46). Diwygiwyd adran 1 gan Atodlen 4 i Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1983 (p.47).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf sydd wedi ei wneud o dan Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. Daw ag adran 1 o'r Mesur i rym yn llawn mewn dau gam.

Daw adran 1 i rym ar 30 Ebrill 2014 mewn perthynas â chartrefi gofal, cartrefi plant, neuaddau preswyl, mathau penodol o hostelau a thai preswyl ac ar 1 Ionawr 2016 mewn perthynas â thai annedd a fflatiau. Ni chaiff adran 1 ei chychwyn mewn perthynas â mathau penodol o adeilad, gweler Erthygl 2(3).

Mae adran 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu system llethu tân awtomatig i breswylfeydd pan gânt eu cwblhau neu eu meddiannu gyntaf fel preswylfa. Mae adran 1 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion y mae'n ofynnol i system llethu tân awtomatig gydymffurfio â hwy.